CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED - CYFARFOD BLYNYDDOL

Drwy Microsoft Teams ar NOS LUN 17.05.2021 am 7.00 p.m.

Yn Bresennol: Cyng.Delme Phillips (Cadeirydd) Cyng. Julian Evans, Elfed Davies,Elsbeth Page a'r Cyng. Bryan Davies.

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Eifion Jones, Phillip Jones, Wyn Evans, Eurig Rees a'r Cynghorydd Sir, Irfon Jones

1	**Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 20fed o Fis Mai, 2019** Cymeradwywyd cofnodion Cyfarfod 20.05.2021 gan Cyng. Elsbeth Page ac eiliwyd gan Cyng. Delme Phillips.
2	**Materion yn Codi o'r Cofnodion** Dim.
3	**Enwebu Cadeirydd 2021-2022** Penderfynwyd yn unfrydol i ethol y Cyng. Bryan Davies yn Gadeirydd am gyfnod o flwyddyn.
4	**Enwebu Is-gadeirydd 2019-2020** Penderfynwyd yn unfrydol i ethol y Cyng. Julian Evans yn Is-gadeirydd am gyfnod o flwyddyn.
5. **a.** **b.** **c.** **d.** **e.**	**Enwebu Aelodau i Bwyllgorau Arbennig -** Penderfynodd y Cyngor fod y Cyngor yn cael ei gynrychioli ar bwyllgorau arbenning fel y canlynol: **Pwyllgor Henoed -** Cyng.Phillip Jones a'r Cyng. Julian Evans **Corff Llywodraethol Ysgol Cynwyl Elfed a Llanpumsaint -** Cyng.Bryan Davies **Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru -** Cyng. Bryan Davies(Cadeirydd) a'r Cyng. Julian Evans **Pwyllgor y Neuadd -** Y Cyng. Julian Evans a'r Cyng. Eurig Rees. **Fforwm Sirol Un Llais Cymru -** Cyng.Bryan Davies a'r Cyng. Eurig Rees
6 a. **b.**	**Trafod a chymeradwyo Cyfrifon Blynyddol am y flwyddyn 2020/2021** Cymeradwywyd Cyfrifon am y flwyddyn 2020/2021 gan y Cyngor ac arwyddwyd y Ffurflen Blynyddol am y flwyddyn ariannol 2020/2021 gan y Cyng. Delme Phillips (Cadeirydd). **Penodi Archwylidd Mewnol** Penderynodd y Cyngor bod y Clerc yn holi Mr Elfyn Williams, a gwblhaodd y gwaith archwilio blwyddyn diwethaf, i wneud yr archwiliad mewnol eleni eto.
7	**Cyflog y Clerc** Penderfynwyd yn unfrydol gan y Cyngor bod Cyflog y Clerc, a godwyd ar 1af Ebrill 2021 yn unol gyda isafswm cyflog i £8.91 yr awr @ 30 awr pob mis = £3207.60 y flwyddyn, i gael ei gynyddu hyd at 2% o'r 1af o Fis Mai 2021. Mae'r Clerc hefyd i hawlio treuliau yn flynyddol.
8	**Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol** Penderfynwyd yn unfrydol gan y Cyngor barhau i gynnal cyfarfodydd am 7.30 ar y trydydd dydd Llun o bob mis. Nid yw'r Cyngor yn cwrdd ym Mis Awst.
9	**Unrhyw fusnes arall** Dim

Daeth y Cyfarfod i ben am8.00 p.m.

Arwyddwyd……..

Dyddiad……